Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 403 (Cy. 81)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

# ANIFEILIAID, CYMRU

# Gorchymyn y Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2025

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Gwnaeth Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 (O.S. 2022/1348 (Cy. 271)) ("Rheoliadau 2022") ymdrin ag unrhyw fethiant mewn cyfraith a gymathwyd i weithredu'n effeithiol, a chywiro diffygion eraill a ddeilliodd o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd, a diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379 (Cy. 252)).

Mae'r Gorchymyn hwn yn cywiro gwall yn Rheoliadau 2022 drwy ddiwygio'r addasiad a wnaed i Gyfarwyddeb 2009/156 i alluogi Gorchmynion a wneir o dan adran 10 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 i bennu'r cyfnod y caniateir anfon Equidae ynddo o diriogaethau yr ystyrir eu bod wedi eu heintio â chlefyd Affricanaidd y ceffylau.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 403 (Cy. 81)

## YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

## ANIFEILIAID, CYMRU

Gorchymyn y Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Mawrth 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *28 Mawrth 2025* |
| *Yn dod i rym* | *31 Mawrth 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 10(1) o

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2025.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Mawrth 2025.

**Diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 18 (addasiadau i gyfarwyddeb 2009/156), yn lle paragraff (6)(e)(ii) rhodder—

(**1**) 1981 p. 22 ("Deddf 1981"). Diwygiwyd adran 10 gan O.S. 1990/2371 a 1993/1813. Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" o dan Ddeddf 1981 (fel y'u diffinnir yn adran 86(1) o'r Ddeddf honno), i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd "the Ministers", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban o ran Cymru, i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd holl swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedi hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044). Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) O.S. 2022/1348 (Cy. 271).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

“(ii) ym mhwynt (a), “by an Order made by the Welsh Ministers under section 10 of the Animal Health Act 1981” wedi ei roi yn lle “in accordance with the procedure referred to in Article 21(3)”.

*Huw Irranca-Davies*
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
27 Mawrth 2025